



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

# Penodi pedwar Aelod Bwrdd Annibynnol ar gyfer y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Cyfeirnod: APPT04-20

---

**Pecyn briffio ar gyfer ymgeiswyr**

Dyddiad Cau: ganol dydd ymlaen 16 Tachwedd 2020

The voice for water consumers  
Y corff sy'n rhoi llais i ddefnyddwyr dŵr



---

## Cynnwys

Neges y Gweinidog i ymgeiswyr .....	2
Datganiad cenhadaeth Defra .....	3
Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr .....	4
Manyleb y swydd .....	6
Meini prawf hanfodol .....	7
Ymrwymiad amser a thymor y swydd .....	8
Tâl a threuliau .....	8
Y broses recriwtio .....	8
Sut i ymgeisio a chyflwyno'ch cais .....	9
Meini prawf anghymhwysedd .....	10
Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyladwy .....	10
Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus .....	11
Diogelu data .....	11
Atodiad A – Saith egwyddor bywyd cyhoeddus .....	12
Atodiad B – Aelodaeth bresennol y Bwrdd .....	13

---

# Neges y Gweinidog i ymgeiswyr

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am ddangos diddordeb mewn bod yn Aelod Bwrdd Annibynnol o'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW).

CCW yw'r corff defnyddwyr ar gyfer holl ddefnyddwyr dŵr Cymru a Lloegr. Corff Cyhoeddus Anadrannol ydyw a sefydlwyd gan y llywodraeth i gynrychioli buddiannau defnyddwyr dŵr ac mae'n darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr a'r llywodraeth drwy waith eiriolaeth ac ymchwil. Mae'n sicrhau bod llais cyfunol defnyddwyr, yn enwedig y rhai mewn amgylchiadau agored i niwed, yn cael ei glywed mewn dadleuon dŵr yng Nghymru a Lloegr a bod defnyddwyr yn parhau i fod yn ffocws ym mlaenoriaethau'r diwydiant dŵr.

Mae yna lawer yn digwydd yn y sector dŵr, ac mae CCW yn cyflawni rôl allweddol i sicrhau bod barn defnyddwyr dŵr, yn aelwydydd a busnesau, yn cael ei chlywed ac yn arwain at gamau gweithredu. Mae hyn yn bwysicach nag erioed gydag argyfwng y coronafeirws, sydd wedi effeithio ar y diwydiant dŵr a defnyddwyr dŵr mewn amryw o ffyrdd gwahanol – er enghraifft, cwmnïau dŵr yn wynebu heriau i gynnal eu gwasanaethau, manwerthwyr yn y farchnad ddŵr yn cael problemau hylifedd ac aelwydydd a busnesau'n cael anawsterau wrth dalu eu biliau dŵr.

Mae CCW wedi bod yn ad-drefnu hefyd. Ar 1 Gorffennaf 2020 cyflwynwyd newidiadau i gyfansoddiad y Bwrdd ac i'w strwythur pwyllgorau rhanbarthol. Mae ganddo ddau bwyllgor yn awr, un i Gymru ac un i Loegr. Cyflwynwyd newidiadau eraill yr un pryd i wella effeithiolrwydd ei weithrediadau rhanbarthol, sy'n canolbwyntio ar faterion gweithredol, sef perfformiad, polisïau a gwasanaethau cwmnïau dŵr i ddefnyddwyr yn bennaf.

O ystyried y cyfnod cyffrous hwn o newid, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn darparu gweledigaeth, cyngor annibynnol a chymorth i CCW gan gydweithio ag aelodau eraill y Bwrdd ac amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Os ydych chi'n credu bod y gallu gennych chi i ymgymryd â'r rôl hon, sy'n rhoi llawer o foddhad, rwy'n eich annog i ymgeisio. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o gefndiroedd amrywiol yn arbennig.

**REBECCA POW AS**



---

# Datganiad cenhadaeth Defra

Mae grŵp Defra yma i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach, a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd i genedlaethau'r dyfodol, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell.

Mae hyn yn bwysig gan fod gwella natur a mannau gwyrdd yn gwella bywydau a bywiolaeth pobl, gan gyfrannu at economi gref. Mae gan ein lles, ein hiechyd corfforol a meddyliol, ein cariad at le a thirwedd, a'n hangen cynhenid am harddwch a rhyfeddod i gyd gysylltiad eithriadol o glòs ag amgylchedd naturiol ffyniannus.

Bydd penodi pobl dalentog o gefndiroedd amrywiol sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol i fyrdau'n cyrff cyhoeddus yn ein helpu ni i sicrhau bod ein gwaith yn fwy effeithiol, cadarn ac atebol.

## Cyfle Cyfartal

Mae gan Lywodraeth y DU bolisi cyfle cyfartal. Ein nod yw hyrwyddo polisiau cyfle cyfartal fel na fydd unrhyw un yn dioddef gwahaniaethu annheg naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu aflonyddu, ar sail megis hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, statws priodasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, cred grefyddol neu oedran.

## Amrywiaeth

Rydym yn croesawu'n gadarnhaol ymgeiswyr o bob cefndir. Gwneir pob penodiad cyhoeddus ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored fel y rheoleiddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

## Anabledd

Rydym yn sicrhau cyfwelliad i unrhyw un sydd ag anabledd y bydd ei gais ef neu hi yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Mae 'meini prawf gofynnol' yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddigonol yn eich cais yn bodloni'r lefel cymhwysedd ofynnol ar gyfer pob maen prawf hanfodol, yn ogystal â bodloni unrhyw rai o'r cymwysterau, sgiliau neu brofiad sy'n ofynnol. Mae Swyddfa'r Cabinet a Defra wedi ymrwmo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. Er mwyn dangos hyn rydym yn falch o arddangos logo Arweinydd Hyderus o Ran Anabledd. Mae rhagor o wybodaeth am Arweinwyr Hyderus o Ran Anabledd ar gael drwy glicio'r logo uchod. Os yw unigolyn ag anableddau'n cael ei roi dan anfantais sylweddol o gymharu ag unigolyn nad yw'n anabl, mae gennym ddyletswydd i wneud newidiadau rhesymol i'n prosesau lle bo'n bosibl. Os ydych am i ni wneud newid fel y gallwch gyflwyno'ch cais, gweler yr adran '[Sut i ymgeisio a chyflwyno'ch cais](#)' isod.

# Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW) yw'r corff defnyddwyr dŵr annibynnol a statudol sy'n cynrychioli defnyddwyr dŵr sy'n aelwydydd ac nad ydynt yn aelwydydd yng Nghymru a Lloegr.

Mae CCW yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol gan Defra yn Lloegr ac yn gorff statudol yng Nghymru. Mae'n atebol i Ysgrifennydd Gwladol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae Deddf Dŵr 2003 yn nodi swyddogaethau a dyletswyddau CCW fel a ganlyn:

- ystyried buddiannau defnyddwyr dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhai cwsmeriaid bregus oherwydd bod eu gallu i ddefnyddio'r gwasanaethau'n cael ei effeithio oherwydd oed, incwm, anabled neu ddaearyddiaeth;
- archwilio cwynion gan ddefnyddwyr ynghylch cwmnïau dŵr a charthffosiaeth;
- cael ac adolygu gwybodaeth ynghylch materion defnyddwyr a barn defnyddwyr ar faterion o'r fath;
- gwneud cynigion, rhoi cyngor a gwybodaeth a chynrychioli barn defnyddwyr i awdurdodau cyhoeddus, cwmnïau dŵr a charthffosiaeth ac eraill y gall eu gweithgareddau effeithio ar fuddiannau defnyddwyr;
- rhoi cyngor a gwybodaeth i ddefnyddwyr;
- cyhoeddi ystadegau am gwynion y mae cwmnïau dŵr yn eu cael ac amdanyn nhw;

- archwilio unrhyw faterion sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr sydd ddim yn destun cwyn o reidrwydd.

Mae gan CCW statws uwch achwynydd<sup>1</sup> o dan Ddeddf Menter 2002 hefyd.

Cenhadaeth CCW yw sicrhau gwasanaeth diogel, dibynadwy a bargaen deg i ddefnyddwyr dŵr. Mae tair uchelgais strategol yn sail i'r genhadaeth:-

- costau teg y gall pawb eu fforddio;
- gwasanaethau eithriadol a ddarperir yn gywir y tro cyntaf;
- gwasanaeth diogel a dibynadwy nawr ac yn y dyfodol.

Bob blwyddyn mae CCW yn ymgynghori ar ei Flaenraglen Waith ac yn ei chyhoeddi, sy'n nodi ei flaenoriaethau ar gyfer cynrychioli defnyddwyr dŵr dros y tair blynedd nesaf. Caiff hon ei hategu gan Gynllun Busnes Gweithredol sy'n nodi sut y bydd blaenoriaethau'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol yn cael eu cyflawni yn y flwyddyn i ddod. Gellir gweld y ddwy ddogfen gyfredol yn <https://www.ccwater.org.uk/aboutus/publications/>.

Mae effeithiolrwydd CCW yn dibynnu ar fod yn agos at ddefnyddwyr dŵr, deall eu hanghenion a gallu siarad gydag awdurdod ar eu rhan. Mae'r sector dŵr yn esblygu ac mae CCW yn credu bod eiriolaeth a chynrychiolaeth

---

<sup>1</sup> Ystyr "uwch achwynydd" yw cwyn a wneir yn y DU gan sefydliad "uwch achwynydd" wedi'i gymeradwyo ar ran defnyddwyr sy'n cael ei roi ar lwybr carlam gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

---

effeithiol, ar ran defnyddwyr dŵr sy'n aelwydydd a busnesau, yn hanfodol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed pan fydd datblygiadau'r dyfodol yn cael eu llunio a'r newidiadau canlyniadol yn cael eu gweithredu. Mae'r Bwrdd yn credu hefyd y dylai ymgysylltu â defnyddwyr, cyfranogiad defnyddwyr a segmentu chwarae rhan gynyddol bwysig wrth i'r sector dŵr barhau i esblygu.

## Y Bwrdd

Mae CCW yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd sy'n gyfrifol am bennu nodau strategol, gwerthoedd a blaenoriaethau polisi CCW. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol hefyd am hyrwyddo defnydd effeithlon ac effeithiol o'i staff ac adnoddau eraill, gan sicrhau ei fod yn cyflawni nodau ac amcanion yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan CCW ddau bwyllgor, un i Gymru ac un i Loegr. Maent yn darparu cyngor a gwybodaeth i'r Bwrdd ar faterion defnyddwyr sy'n effeithio ar ardaloedd y cwmnïau dŵr perthnasol (y cyfeirir atynt fel ymgymerydd yn y Ddeddf) a ddyrannwyd i'r pwyllgor hwnnw.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Cadeirydd Cymru, chwe Aelod Bwrdd Annibynnol a'r Prif Weithredwr – mae manylion llawn yn Atodiad B. Yn ogystal â Phwyllgorau Cymru a Lloegr mae'r Bwrdd wedi sefydlu tri phwyllgor sefydlog parhaol:-

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg;
- Pwyllgor AD a Chyflogau;
- Pwyllgor Cyngori.

O bryd i'w gilydd gall y Bwrdd sefydlu pwyllgorau eraill y mae'n credu sy'n briodol er mwyn cyflawni ei fusnes yn effeithlon.

Disgwylir i holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd wasanaethu ar o leiaf un pwyllgor parhaol.

Mae cyfrifoldeb rheoli CCW o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr.

Mae gan CCW swyddfeydd yn Birmingham a Chaerdydd, ac mae'n symud i adeiladau hwb newydd y Llywodraeth yn y ddau leoliad yn 2021.

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cyfarfod wyth gwaith y flwyddyn ac mae pump o'r cyfarfodydd hynny'n gyhoeddus fel arfer. Cynhelir y cyfarfodydd cyhoeddus ym mhedwar rhanbarth CCW yn Lloegr ac yng Nghymru; cynhelir cyfarfodydd eraill yn swyddfeydd CCW yn Birmingham fel arfer. Cynhelir cyfarfodydd o bell drwy gyfleusterau fideo-gynadledda pan fo angen. Gellir gweld papurau cyfarfodydd cyhoeddus blaenorol yn <https://www.ccwater.org.uk/aboutus/our-people/board/meetings/>

## Rhagor o Wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am CCW, yn cynnwys Cod Llywodraethu'r Bwrdd a'i gyfarfodydd cyhoeddus ar gael ar wefan CCW <https://www.ccwater.org.uk/>

I gael rhagor o wybodaeth am y swydd neu Fwrdd CCW e-bostiwch Freya Pearson yn: [freya.pearson@defra.gov.uk](mailto:freya.pearson@defra.gov.uk)

---

# Manyleb y swydd

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol am benodi pedwar Aelod Annibynnol i Fwrdd CCW, a all ddangos bod ganddynt sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd perthnasol Croesewir ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol yn arbennig.

## Rôl a chyfrifoldebau

Prif rôl Aelodau Annibynnol Bwrdd CCW yw cyfrannu at waith llywodraethu da'r sefydliad drwy ddod â phrofiad eang a gwrthrychedd beirniadol i waith y Bwrdd.

Caiff pob aelod o Fwrdd CCW ei benodi i gyflawni rôl genedlaethol. Mae cyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd yn cynnwys:

- pennu cyfeiriad strategol cyffredinol CCW;
- sicrhau bod safonau llywodraethu corfforaethol uchel yn cael eu dilyn bob amser;
- cynnal a pharhau i wella cysylltiadau cadarnhaol â rhanddeiliaid allweddol;
- herio cwmnïau dŵr lle bo'n briodol ar ran cwsmeriaid i sicrhau bod buddion yn cael eu darparu i gwsmeriaid, boed yn rhai ariannol a/neu welliannau i'r gwasanaeth;
- sicrhau bod y corff cyhoeddus yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol;
- cynnal adolygiadau achos defnyddwyr ffurfiol ar gyfer CCW fel bo angen.

Bydd Aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu at waith y Bwrdd drwy:

- fod yn gyfarwydd â gwaith a pholisïau strategol CCW a gwybod am y datblygiadau diweddaraf;

- cyfrannu at brosesau busnes a gwneud penderfyniadau'r Bwrdd drwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd Bwrdd, Pwyllgorau, gweithgorau a grwpiau eraill.

Mae Aelodau'r Bwrdd yn arwain ar faes o waith strategol CCW neu ei ymgyrchoedd ac yn gweithio'n agos ag aelodau'r Tîm Gweithredol a gweithwyr yn y maes hwn. Enghreifftiau o feysydd arweiniol yw ymgysylltu a chyfathrebu, defnyddwyr agored i niwed a gwella trefniadau rheoleiddio dŵr i ddefnyddwyr.

Mae'r adran [Meini Prawf Hanfodol](#) yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yn cynnwys yr 'arbenigedd ychwanegol' y mae CCW yn chwilio amdano gan ymgeiswyr llwyddiannus i wella ac ategu cryfderau cyfredol y Bwrdd.

Mae Cod Llywodraethu CCW yn cynnwys mwy o fanylion am weithrediad y Bwrdd a'i Bwyllgorau a mwy o wybodaeth am rôl Aelodau'r Bwrdd.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio ag egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus Nolan (gweler [Atodiad A](#)) a'r [Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau](#).

## Cyfle cyfartal

Rydym yn croesawu ceisiadau'n arbennig gan grwpiau yn y gymdeithas nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ar y Bwrdd cyfredol, yn cynnwys ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig.

---

# Meini prawf hanfodol

## Rhaid i ymgeiswyr allu dangos yr holl feini prawf hanfodol canlynol:

- Angerdd a brwdfrydedd clir i gynrychioli defnyddwyr a'u buddiannau, ac i sicrhau gwelliannau yn y gwasanaeth a gwerth am arian;
- Sgiliau dadansoddi cryf a'r gallu i feddwl yn greadigol a herio'n adeiladol mewn amgylchedd bwrdd ar draws ystod o faterion yn cynnwys strategaeth, llywodraethu, darpariaeth weithredol a chyllid;
- Y gallu i feithrin cysylltiadau cydweithredol a sicrhau ymddiriedaeth cyd-aelodau'r Bwrdd, Tîm Gweithredu CCW a gweithwyr a rheoleiddwyr y sefydliad.
- Byddai profiad neu arbenigedd mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol yn ddymunol:
  - Cyllid
  - Cynrychioli defnyddwyr (busnesau a/neu aelwydydd);
  - Gweithrediad a rheoleiddiad marchnadoedd wedi'u rhyddfrydoli;
  - Sectorau cyfleustodau eraill yn cynnwys ynni neu delathrebu, naill ai fel rheoleiddiwr, gweithredwr neu ymgynghorydd

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus arwain drwy esiampl mewn perthynas â Chenhadaeth, Uchelgeisiau Strategol, Ymgyrchoedd a Gwerthoedd CCW, a gweithredu fel llysgenhadon ar ran y sefydliad. Gweler gwefan CCW am ragor o wybodaeth <https://www.ccwater.org.uk/aboutus/>



---

# Ymrwymiad amser a thymor y swydd

Yr ymrwymiad amser ar gyfer y swydd yw 3 diwrnod y mis.

Mae'r penodiad yn para am bedair blynedd fel arfer. Bydd unrhyw ailbenodiad yn amodol ar berfformiad boddhaol ac arfarniad o

bresenoldeb. Ni fydd unrhyw unigolyn yn gwasanaethu mewn unrhyw swydd benodol am fwy na deng mlynedd a Gweinidogion sydd i benderfynu ar ailbenodiad yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

## Tâl a threuliau

Mae gan yr aelodau hawl i dâl o £11,718 y flwyddyn. Bydd ffioedd yn cael eu talu i gyfrif banc enwebedig drwy drosglwyddiad BACS misol fel ôl-daliad. Mae'r holl dâl sy'n ymwneud â'r penodiad yn drethadwy ac yn rhan o'r Cynllun Talu Wrth Ennill mewn

perthynas â threth incwm a bydd Yswiriant Gwladol yn cael ei ddiynnu yn y ffynhonnell.

Bydd treuliau teithio a threuliau eraill dilys yn cael eu had-dalu yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth CCW.

## Y broses recriwtio

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw ganol dydd ymlaen dydd Llun 16 Tachwedd 2020 am hanner dydd. Rydym yn disgwyl llunio rhestr fer erbyn dydd Llun 14 Rhagfyr 2020, gyda chyfweliadau Panel i'w cynnal yn yr wythnos sy'n dechrau ar 11 Ionawr 2021.

Mae'n hanfodol bod eich datganiad addasrwydd yn rhoi gwybodaeth lawn ond cryno sy'n berthnasol i'r penodiad, gan ddangos yn glir sut rydych chi'n bodloni pob un o'r [meini prawf hanfodol](#). Dylech nodi pa swydd rydych chi'n ymgeisio amdani hefyd.

Bydd y Panel Asesu Ymgynghorol yn cynnwys Rob Light (Cadeirydd CCW) fel cadeirydd, Sophie Broadfield (Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr, Defra), Eifiona Williams (Pennaeth Cangen Dŵr,

Llywodraeth Cymru) ac Isabel Liu (aelod panel annibynnol). Yn y cyfarfod i lunio rhestr fer bydd y Panel yn asesu pob cais yn erbyn y meini prawf hanfodol ac yn penderfynu pwy i'w wahodd am gyfweliad terfynol.

Disgwylir i'r cyfweliadau gael eu cynnal trwy gyfleuster fideo-gynadledda a byddant yn para tua 45 munud. Byddwch yn derbyn rhagor o fanylion am y fformat ymlaen llaw.

Penodiadau Gweinidogol yw'r rhain ac efallai y bydd pob ymgeisydd sy'n addas i'w benodi yn ôl y Panel yn cael cais i gyfarfod â'r Gweinidog cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

# Sut i ymgeisio a chyflwyno'ch cais

I ymgeisio, anfonwch:

- CV nad yw'n fwy na dwy ochr o A4;
- datganiad ategol nad yw'n fwy na dwy ochr o A4, yn nodi sut rydych chi'n bodloni'r [meini prawf hanfodol](#) – gofalwch eich bod chi'n cyfeirio at gynnwys y ddogfen hon;
- manylion cysylltu dau ganolwr, yn cynnwys cyfeiriadau e-bost;
- ffurflen fonitro amrywiaeth;
- ffurflen fonitro gwrthdaro buddiannau, ymddygiad a gweithgarwch gwleidyddol

(gweler yr adran ar [gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyladwy](#) isod).

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y broses benodi cysylltwch â Nick Jenkins, Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn:

[nick.jenkins@defra.gov.uk](mailto:nick.jenkins@defra.gov.uk) neu:

[publicappts@defra.gov.uk](mailto:publicappts@defra.gov.uk)

I gael trafodaeth anffurfiol am y swydd cysylltwch â Freya Pearson, Cydgysylltydd Cysylltiadau CCW yn:

[Freya.pearson@defra.gov.uk](mailto:Freya.pearson@defra.gov.uk)

**Dylid e-bostio ceisiadau wedi'u cwblhau i [publicappts@defra.gov.uk](mailto:publicappts@defra.gov.uk) –  
dyfynnwch gyfeirnod APPT04-20**

---

# Meini prawf anghymhwysedd

Ni ellir eich ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os byddwch yn dod yn fethdalwr neu'n gwneud trefniant gyda chredydwy;
- os yw eich ystâd wedi cael ei secwestru yn yr Alban neu eich bod yn cytuno i raglen trefnu dyledion o dan Ran 1 Deddf Trefnu ac Atafaelu Dyledion (Yr Alban) 2002 (dsa 17) fel y sawl sydd mewn dyled neu eich bod, o dan gyfraith yr Alban, wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth ar gyfer credydwy;
- os ydych wedi eich gwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni o dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986;
- os ydych wedi eich cael yn euog o drosedd a bod yr euogfarn heb ei disbyddu at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974 (c. 53);
- os ydych yn dod yn destun gorchymyn rhyddhau o ddyled neu orchymyn cyfyngu methdaliad;
- os ydych yn peidio â datgan gwrthdaro buddiannau.

## Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyladwy

Os oes gennych unrhyw fuddiannau a allai fod yn berthnasol i waith CCW ac a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosol pe byddech yn cael eich penodi, rhowch fanylion yn eich cais. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn ac yr hoffech drafod ymhellach cysylltwch â'r [Tîm Penodiadau Cyhoeddus](#).

O gofio natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rhai a benodir yn aelodau o gyrff cyhoeddus yn cynnal hyder y Senedd a'r cyhoedd. Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, pe byddech yn cael eich penodi, gael eu camddehongli, achosi embaras, neu beri perygl i hyder y cyhoedd yn y penodiad, mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu dwyn i sylw'r Panel Asesu Cynghorol a'ch bod yn rhoi manylion y mater(ion) yn eich cais. Wrth

ystyried a ydych yn dymuno datgan unrhyw faterion, dylech hefyd feddwl am unrhyw ddatganiadau cyhoeddus yr ydych wedi eu gwneud, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'n gwiriadau diwydrwydd dyladwy byddwn yn ystyried unrhyw beth yn y parth cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'ch ymddygiad neu'ch gallu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys ein bod yn cynnal chwiliadau o ddatganiadau cyhoeddus blaenorol a blogiau cyfryngau cymdeithasol neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyhoeddus. Efallai y trefnir bod y wybodaeth hon ar gael i'r Panel Asesu Cynghorol ac efallai y bydd y panel am archwilio materion gyda chi pe byddech yn cael eich gwahodd am gyfweiliad. Gall y wybodaeth gael ei rhannu gyda Gweinidogion a Swyddfa'r Cabinet hefyd.

---

## Comisiynydd

## Penodiadau

## Cyhoeddus

Rheoleiddir y penodiad hwn gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus er mwyn sicrhau y caiff ei wneud ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a'r Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus i'w gweld yn:

<http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/>

## Diogelu data

Mae Defra wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol ac mae'n gwneud hynny yn unol â chyfraith diogelu data yn cynnwys Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Defnyddir yr holl wybodaeth a ddarperir gennych i fynd rhagddo â'r penodiad cyhoeddus a restrir yn y pecyn gwybodaeth hwn ac yn achos gwybodaeth monitro amrywiaeth gall gael ei dienwi a'i defnyddio at

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/578498/governance\\_code\\_on\\_public\\_appointments\\_16\\_12\\_2016.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf)

I gael manylion llawn y broses gwyno ar gyfer penodiadau cyhoeddus, cliciwch ar y ddolen ganlynol a fydd yn mynd â chi i wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

<https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/regulating-appointments/>

ddibenion monitro'n unig. I gael rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn casglu ac yn dal eich gwybodaeth, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd, y gellir ei gyrchu drwy wefan Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet

(<https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk>) neu drwy wneud cais am gopi o Hysbysiad Preifatrwydd Penodiadau Cyhoeddus Defra [publicappts@defra.gov.uk](mailto:publicappts@defra.gov.uk).

---

# Atodiad A – Saith egwyddor bywyd cyhoeddus

## Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd a hynny'n unig.

## Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain o dan unrhyw ymrwymiad i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn cael budd ariannol neu fudd arall iddynt hwy, eu teulu na'u ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasoedd.

## Gwrthrychedd

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiuedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na dangos rhagfarn.

## Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu i sicrhau hyn.

## Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid dal gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

## Gonestrwydd

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

## Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn trwy eu hymddygiad eu hunain. Dylent hyrwyddo a chefnogi'n gadarn yr egwyddorion a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pan fydd yn digwydd.

---

## Atodiad B – Aelodaeth bresennol y Bwrdd

Alison Austin

Emma Clancy (Prif Swyddog Gweithredol)

Bernard Crump

David Heath

Julie Hill

Rob Light (Cadeirydd)

Tony Redmond

Rhodri Williams

Rob Wilson

Mae bywgraffiadau manylach ar gael o bob aelod o'r Bwrdd yn  
<https://www.ccwater.org.uk/aboutus/our-people/board/meettheboard/>



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

